Y Comisiwn Etholiadol

Refferendwm yr UE Diweddariad ymgyrchwyr rhif 10

Mehefin 2016

Ymunwch â'n rhestr diweddariadau

Gallwch gofrestru i dderbyn y diweddariadau hyn ar ein gwefan neu drwy ffonio 0333 103 1929

Cynhaliwyd refferendwm ar aelodaeth y DU o'r UE ar 23 Mehefin 2016.

Rydym yn rheoleiddio cyllid a gwariant gwleidyddol. Rydym yn cofrestru ymgyrchwyr ac yn rheoleiddio eu gwariant a'u rhoddion mewn refferenda.

Ein hamcan yw sicrhau hygrededd a thryloywder cyllid a gwariant ymgyrchu ar gyfer pleidleiswyr.

Rydym wedi cyhoeddi diweddariadau i ddarparu canllawiau ychwanegol ar gyfer ymgyrchwyr ar y rheolau ynghylch gwariant a rhoddion, arfer gorau ar gyfer ymgyrchwyr a dyddiad allweddol.

Ynghylch y diweddariad hwn

Mae'r diweddariad hwn yn cynnwys:

- Refferendwm ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd
- talu anfonebau ar gyfer gwariant ymgyrchu a hawl i dalu
- cofnod o ddim gwariant
- dyddiadau cau adrodd ymgyrchu
- ymgyrchwyr refferendwm anghofrestredig
- ble gallwch chi gael mwy o wybodaeth

Refferendwm ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd

Rydym yn canolbwyntio ar bleidleiswyr ac ar roi eu buddion nhw yn gyntaf.

Ein hamcanion ar gyfer refferenda oedd:

- ei fod yn cael ei gynnal yn dda ac yn rhoi canlyniadau a dderbynnir
- bod hygrededd a thryloywder cyllido a gwariant ymgyrchu

Fe wnaeth Prif Swyddog Cyfrif Refferendwm yr UE, Jenny Watson sydd hefyd yn Gadeirydd y Comisiwn Etholiadol ddatgan y canlyniad swyddogol ar gyfer refferendwm ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd ddydd Gwener 24 Mehefin.

Y cyfanswm o bapurau pleidleisio a gyfrwyd oedd 33,577,342

Mae'r datganiad wedi cadarnhau bod 48.1% o bleidleisiau (16,141,241) wedi eu bwrw o blaid AROS a 51.9% o bleidleisiau (17,410,742) wedi eu bwrw o blaid GADAEL.
Mae hyn yn golygu bod y DU wedi pleidleisio i ADAEL yr Undeb Ewropeaidd.

Y nifer a bleidleisiodd yn genedlaethol oes 72.2%

Mae canlyniadau'r bleidlais yn fanwl ar ein gwefan yma.

Fel rhan o'n cyfrifoldebau wrth ddarparu'r refferendwm, fe wnaeth y Comisiwn Etholiadol gofrestru 119 o ymgyrchwyr ar gyfer y refferendwm. Mae rhestr ohonynt yma.

Rydym wedi cyhoeddi tri adroddiad cyn y bleidlais (gyda'r pedwerydd i ddilyn ddydd Mercher 6 Gorffennaf), ac mae'r adroddiadau i'w gweld yma.

Ry'n ni wedi darparu cyngor a chanllawiau i ymgyrchwyr ac aelodau'r cyhoedd, gan ateb 2000 o ymholiadau. Bydd ein gwasanaeth cyngor ar gyfer y refferendwm yn parhau a gallwch gysylltu â ni drwy e-bost neu dros y ffôn. Mae ein manylion cyswllt ar waelod y diweddariad yma.

Gobeithiwn fod ein canllawiau, cyngor a'r diweddariadau hyn wedi bod yn ddefnyddiol a byddem yn gwerthfawrogi unrhyw adborth gennych chi.

Byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar weinyddiaeth y refferendwm a gwariant ymgyrchu refferendwm yn hwyrach eleni.

Dyddiadau cau adrodd

Mae gan ymgyrchwyr cofrestredig nifer o ofynion adrodd statudol ar ôl.

Talu anfonebau ar gyfer gwariant ymgyrchu a hawl i dalu

Mae dyddiadau cau i ymgyrchwyr refferendwm dderbyn a thalu anfonebau ar gyfer gwariant ymgyrchu. Y dyddiad olaf i dderbyn anfonebau gan eich cyflenwyr yw **25 Gorffennaf 2015**. Y dyddiad olaf i dalu anfonebau yw **22 Awst 2016.**

Rhaid i chi **beidio** â thalu anfoneb os:

- os ydych yn ei dderbyn ar ôl 25 Gorffennaf, neu
- os ydych yn ei dderbyn ar neu cyn 25 Gorffennaf 2016 on yn methu neu'n gwrthod ei dalu erbyn y dyddiad cau o 22 Awst 2016.

heblaw bod dyfarniad neu orchymyn llys yn eich galluogi i wneud.

I gael rhagor o wybodaeth ar dalu anfonebau ar gyfer gwariant ymgyrchu gweler ein canllawiau yma: Talu anfonebau ar gyfer gwariant ymgyrch

Cofnodion gwariant

Mae'n rhaid i ymgyrchwyr refferendwm cofrestredig gyflwyno cofnod gwariant i ni os ydynt wedi gwario mwy na'r trothwy cofrestru o £10,000 .

Os ydych wedi gwario £10,000 neu lai yn ystod cyfnod y refferendwm, mae'n rhaid i chi wneud datganiad i ni fod eich cyfanswm gwariant yn llai na £10,000. Gallwch wneud hyn ar-lein neu drwy gwblhau EUR3A - datganiad o wario llai na £10,000.

Os wnaethoch chi wario mwy na £10,000 yn ymgyrchu yn ystod cyfnod y refferendwm, mae'n rhaid i chi adrodd eich gwariant ymgyrchu i ni yn eich cofnod gwariant ymgyrchu. Mae'n rhaid i'ch cofnod gwariant gynnwys y canlynol:

- cofnodion eich gwariant a'ch rhoddion
- anfonebau a derbynebau ar gyfer unrhyw daliad dros £200
- datganiad gan y 'person cyfrifol' i ddweud bod y cofnod yn gyfan a chywir

Os wnaethoch chi gydweithio gydag ymgyrchydd arall, mae'n rhaid i chi gynnwys y manylion canlynol:

- cofnodion o'ch gwariant
- anfonebau a derbynebau ar gyfer unrhyw daliad dros £200
- enw unrhyw ymgyrchydd arall
- cyfanswm a wariwyd gan yr ymgyrchydd arall yn yr ymgyrch

Gallwch gwblhau eich cofnod ar-lein neu drwy gwblhau a dychwelyd ffurflen EUR3B - cofnod gwariant ymgyrch refferendwm. I gael mwy o wybodaeth ar gwblhau eich cofnod gwariant drwy ein system ar-lein ddiogel, gweler canllawiau defnyddwyr CPE Ar-lein: Creu a chyflwyno cofnod rhoddion a benthyciadau Refferendwm yr UE, a Creu a chyflwyno cofnod gwariant Refferendwm yr UE.

Mae'n rhaid i chi hefyd adrodd rhoddion a benthyciadau yn eich cofnod gwariant ymgyrch. I gael mwy o wybodaeth gweler ein canllawiau ar Rhoddion ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE a Benthyciadau ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE.

I gael mwy o wybodaeth ar gwblhau eich cofnod gwariant ymgyrchu, gweler ein canllawiau ar Gwariant ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr

UE a Nodiadau esboniadol cofnod gwariant ymgyrchu.

Dyddiadau cau adrodd ymgyrchu

Os ydych wedi gwario £250,000 neu lai ar ymgyrchu refferendwm, mae'n rhaid i chi adrodd eich cofnod gwariant ymgyrch erbyn **23 Medi 2016.**

Os ydych wedi gwario mwy na £250,000 ar ymgyrchu refferendwm, mae'n rhaid i chi adrodd eich cofnod gwariant ymgyrch erbyn **23 Rhagfyr 2016.**

Ymgyrchwyr refferendwm anghofrestredig

Nid oes gofyn i ymgyrchwyr refferendwm anghofrestredig, nad oedd wedi gweithio gydag ymgyrchydd arall a heb wario mwy na £10,000 yn ystod cyfnod y refferendwm adrodd i ni ar ôl y refferendwm.

Os oes angen mwy o wybodaeth ar y rheolau o ran cydweithio, gweler ein canllawiau yma: Cydweithio ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE.

Ble allwch chi gael mwy o wybodaeth

Ry'n ni wastad yn hapus i roi cyngor i ymgyrchwyr ar sut i gydymffurfio â'r rheolau. Ffoniwch ni ar 0333 103 1928 neu e-bostiwch pef@electoralcommission.org.uk

Neu gallwch gysylltu â ni gan ddefnyddio'r cyfeiriadau e-bost isod.

- Lloegr a Gibraltar: pef@electoralcommission.org.uk
- Yr Alban: infoscotland@electoralcommission.org.uk
- Cymru: 0333 103 1929 gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
- Gogledd Iwerddon: infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Gwybodaeth arall am y refferendwm

Ar ein gwefan: www.comisiwnetholiadol.org.uk, gallwch ddod o hyd i:

- mwy o wybodaeth am ein rôl mewn refferenda
- ein prif egwyddorion ar gyfer rhedeg refferenda
- ein hymdriniaeth o ran asesu cwestiynau refferendwm
- ein canfyddiadau ar gwestiwn y refferendwm
- briffiau ar y Bil yn esbonio ein safbwynt ar ddarpariaethau lle bo'n briodol